# CYNGOR SIR Y FFLINT

# STRATEGAETH DDRAFFT TOILEDAU LLEOL

# MAWRTH 2024

# CYNNWYS


Crynodeb Gweithredol ........ 3

Cefndir a Chyflwyniad ........ 4

Manteision y Strategaeth Hon ........ 7

Adolygu'r Strategaeth ........ 8

Mapio lleoliadau ........ 9

Manylion cyfleusterau presennol y sir sydd ar gael i'r cyhoedd ........ 11

Cyfleusterau Ychwanegol o fewn y Sir ........ 14

Asesiad o Anghenion ........ 15

Canlyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ........ 18

Opsiynau ar gyfer y Dyfodol ........ 20

Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu ........ 22

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Ym mis Mehefin 2017, derbyniodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol gan dynnu ynghyd nifer o weithredoedd ymarferol ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cynnwys Darparu Toiledau ac yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i Awdurdodau Lleol ddarparu strategaethau toiledau lleol.

Er mwyn gweithio mewn ffordd strategol wrth ddarparu toiledau ar draws Cymru, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gorchymyn fod Awdurdodau Lleol yn asesu anghenion a chyfleusterau lleol, a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardaloedd.

Nid yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol yn gorfodi cynghorau i ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol, ac nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu cyfleusterau pwrpasol newydd. Serch hynny, mae'n rhaid iddynt gymryd golwg strategol o ran sut y gellir darparu cyfleusterau a chael mynediad atynt, gan ystyried pethau fel lleoliad, hygyrchedd, cyfleusterau, amlder defnydd ac ansawdd safleoedd presennol, yn ogystal â phennu a oes angen mwy neu lai o safleoedd ar gyfer eu poblogaeth leol. Nid oes cyllid ar gyfer darpariaethau ychwanegol ynghlwm i'r ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ers 2012, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal tri adolygiad ar wahân o ddarpariaeth toiledau ar draws y Sir. Cyhoeddwyd y strategaeth flaenorol ym mis Mai 2019. Amlygodd yr adolygiadau hyn fod rhai cyfleusterau yn profi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rheolaidd, sy'n gwneud pobl yn llai tebyg o'u defnyddio. O ganlyniad, anelodd Sir y Fflint i fabwysiadu dull mwy galluogol drwy hyrwyddo defnydd o doiledau presennol yn Adeiladau'r Cyngor fel llyfrgelloedd a Chanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu, y mae pobl yn teimlo'n fwy hyderus a chyfforddus yn eu defnyddio. Er y cyhoeddwyd y strategaeth flaenorol ym mis Mai 2019 gyda chynllun gweithredu 12 cam, cafodd y pandemig effaith andwyol ar hyn am sawl blwyddyn.

Nod y Strategaeth hon yw datblygu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol ac asesu anghenion cymunedau lleol, yn ogystal â safon y cyfleusterau sydd ar gael. Felly, bydd y strategaeth newydd yn edrych ar wella cyflwr a hygyrchedd y cyfleusterau ar draws y sir dros y 4 i 5 mlynedd nesaf. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, megis darpariaeth "Lleoedd Newid" a thoiledau niwtral o ran rhywedd, yn ogystal â thoiledau hygyrch safonol yn y lleoliadau mwyaf priodol. Rydym hefyd yn anelu

i sicrhau dyfodol y darpariaethau presennol ac archwilio ffyrdd i gynyddu nifer y toiledau cyhoeddus sydd ar gael a gwella mynediad i bob grŵp o bobl.

# CEFNDIR A CHYFLWYNIAD

Yn y canllaw a ddarparwyd i Awdurdodau Lleol er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu Strategaethau Toiledau Lleol, mae Ysgrifennydd Y Cabinet Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn egluro "Gall toiledau hygyrch, glân, sydd wedi eu lleoli'n dda mewn llefydd fel canol trefi, parciau, promenadau, llwybrau beics a cherdded helpu i annog pobl i ymarfer corff ac aros yn fwy corfforol egnïol. Mae manteision hyn yn amlwg o safbwynt iechyd a'r economi. Ar y llaw arall, gall toiledau sydd wedi'u dylunio yn wael, nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol ac sydd mewn mannau amhriodol greu awyrgylch o esgeulustod, nad yw'n annog y cyhoedd i'w defnyddio. Gall diffyg cyfleusterau toiledau addas effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn, yn ogystal ag effeithio ar iechyd amgylcheddol ehangach y boblogaeth." Nodir gwerthfawrogiad manteision cael cyfleusterau ar gael ymhellach "Mae toiledau at ddefnydd y cyhoedd yn fater i bawb ac yn parhau'n fater proffil uchel. Fodd bynnag, maent yn bwysicach fyth i rai grwpiau yn y gymdeithas, megis pobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl ag anghenion penodol (sy'n cynnwys rhai problemau meddygol), merched, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gall y grwpiau hyn gael eu heffeithio'n anghymesur gan ddarpariaeth wael."

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cydnabod y manteision a'r materion sy'n ymwneud â chyfleusterau cyhoeddus, gan gychwyn ar y broses o gysoni'r cyfleusterau o dan reolaeth y Cyngor yn ôl yn 2012. Ar y pryd, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet oedd yn nodi bod y Cyngor yn cefnogi 12 safle penodol, er nad oes dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaeth Cyfleusterau Cyhoeddus ac nad oes Polisi ffurfiol ganddo i benderfynu ar y lleoliad neu'r math o gyfleusterau a ddarperir a bod anghysondeb wedi datblygu o ran lleoliad y cyfleusterau ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar draws y Sir. Ar y pryd, nodwyd bod rhai o'r lleoliadau wedi eu cysylltu ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gydag adroddiadau am gamddefnyddio sylweddau a fandaliaeth yn y cyfleusterau. Tra bo'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn anecdotaidd, bu i'r Cyngor dderbyn cwynion am safleoedd penodol. Roedd y safle ar Stryd Alexandra, Shotton ar gau ers mis Mehefin 2012, oherwydd cwynion penodol am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nodwyd bod y gwasanaeth Cyfleusterau Cyhoeddus yn cael ei reoli o fewn y Gwasanaethau Stryd gyda dyraniad cyllideb o £173,187 yn 2012 – 13. Roedd gwaith trwsio a chynnal a chadw'r holl gyfleusterau yn cael ei wneud gan gontractwyr preifat.

Fel datrysiad i rai o'r problemau, nodwyd bod y Cyngor yn datblygu rhaglen o siopau un alwad, Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu, ar draws y Sir, a hefyd yn rheoli nifer o adeiladau eraill y Cyngor sy'n agos at gyfleusterau Toiledau Cyhoeddus unigol. Fe allai Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu newydd a'r cyfleusterau eraill h.y. Canolfannau Hamdden gynnig cyfleusterau toiledau at eu defnydd eu hunain a hefyd fel Cyfleusterau Cyhoeddus ehangach.

Roedd hefyd yn cael ei gydnabod ar yr adeg honno ei fod yn bwysig bod y gwasanaeth Cyfleusterau Cyhoeddus yn cyd-fynd ag amcanion strategol ehangach y Cyngor, fel hyrwyddo twristiaeth a marchnata Canol Trefi a bydd darparu'r gwasanaeth newydd yn gwneud hyn drwy sicrhau bod cyfleusterau mewn cyflwr da yn cael eu darparu mewn lleoliadau allweddol ar draws y Sir ac y bydd gwneud defnydd o Ganolfannau Sir Y Fflint Yn Cysylltu ac adeiladau eraill y Cyngor (ble bo'n briodol) a chyfleusterau preifat yn ad-drefnu ac yn gwella hygyrchedd y gwasanaeth, gan ddarparu'r manteision canlynol dros y gwasanaeth cyfredol oedd yn cynnwys oriau agor hirach o bosib, sydd wedi eu targedu yn well i angen lleol, a llai o enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth.

Ar y pryd, ystyriwyd cyflwyno ffi am ddefnyddio'r cyfleusterau ond daethpwyd i'r canlyniad y byddai ffi o'r fath yn fwy drud i'w chyflwyno a'i rhedeg na'r arian a fyddai'n dod i mewn fel incwm, ac felly'n creu pwysau ychwanegol o ran cost i'r Cyngor. Byddai codi tâl hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o fandaliaeth yn y cyfleusterau. Yn yr un modd, ystyriwyd cyflwyno system 'Superloo', ond roedd y gost yn rhy uchel.

Yn 2016, cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Cabinet gyda'r bwriad o gydnabod bod strategaeth newydd Sir y Fflint wedi nodi bod cyfleusterau Toiledau Cyhoeddus unig yn atynnu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rheolaidd a bod llawer o bobl yn dewis peidio defnyddio'r cyfleusterau oherwydd hynny. Cynigwyd y dylai'r Cyngor hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau toiled presennol, o fewn adeiladu'r Cyngor e.e. Llyfrgelloedd a Chanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu, yn hytrach na'r cyfleusterau pwrpasol sydd yn aml yn unig, a ddarparwyd yn flaenorol. Byddai cam olaf hwn yn yr adolygiad yn ystyried dyfodol y Cyfleusterau Cyhoeddus sydd ar ôl yn y Sir. Roedd yr adroddiad yn cydnabod mai'r gyllideb yn 2016 er mwyn darparu'r gwasanaeth cyfleusterau cyhoeddus oedd £93,998 a gwnaed argymhellion i leihau'r ddarpariaeth bresennol o gyfleusterau pwrpasol

unigol i 2 safle yn unig yn y Sir. Fodd bynnag, fe wnaeth yr Awdurdod gynnig y safleoedd hynny drwy Drosglwyddiad Ased Cymunedol i Gynghorau Tref a Chymuned y gymuned leol, ac er bod yr opsiwn wedi cael ei archwilio, nid oes unrhyw rai ohonynt wedi eu datblygu yn ddigon pell i olygu trosglwyddiad. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithredu 3 o gyfleusterau unigol, sef:

- Gorsaf Fysiau, Yr Wyddgrug
- oddi ar y Stryd Fawr, Treffynnon
- Station Road, Talacre

Felly, gellir gweld bod Cyngor Sir y Fflint eisoes wedi cychwyn y broses o ddatblygu strategaeth i reoli darpariaeth y toiledau lleol, ac yn y man cyntaf y bwriad oedd ad-drefnu a gwella'r cyfleusterau a gynigir at ddefnydd y cyhoedd. Er mwyn symud ymlaen gyda'r broses hon ac alinio gyda gofyniad Rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru), nodwyd yn ôl yn Adroddiad Cabinet 2016 bod Bil Iechyd y Cyhoedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2015 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau ar gyfer darparu toiledau at ddefnydd y cyhoedd o fewn eu hardaloedd, ac er bod y Cyngor wedi cau nifer o gyfleusterau pwrpasol, mae mynediad at doiledau eraill y mae'r Cyngor yn berchen arnynt wedi gwella.

Enghraifft o'r dull gweithredu hwn fyddai cau cyfleusterau pwrpasol yng Nghei Connah, a'r Wyddgrug. Cafodd y toiledau yng Nghei Connah eu disodli gan fynediad at well cyfleusterau toiledau mewn safle aml bwrpas, sy'n lleihau costau glanhau a chynnal a chadw, yn dileu'r ymddygiad gwrthgymdeithasol fu'n digwydd ar y safle ac yn gwella'r cyfleusterau cyffredinol a gynigir i'r cyhoedd yn yr ardal.

Bydd y dull gweithredu hwn yn parhau i fod yn sail i'r strategaeth pan fydd angen ei gynhyrchu yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'n glir bod yr Awdurdod yn ymwybodol mai dyma'r amser i gychwyn proses hir dymor, ac nad oes angen i'r holl gyfleusterau toiledau presennol aros, yn enwedig os oes gwell opsiynau. Mae ymdrechion i gynyddu'r ddarpariaeth o doiledau lleol ychwanegol hefyd wedi dangos na ellir gwneud pob un o'r cyfleusterau posib o fewn adeiladau yn hygyrch i'r cyhoedd. Ac rydym yn derbyn y bydd gwneud defnydd o gyfleusterau presennol yn golygu na fydd pob toiled a fydd yn gallu cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd yn gwbl hygyrch i bawb oherwydd cyfyngiadau adeiladau, a beth sy'n newid cymesur er mwyn gwneud y toiled yn gwbl hygyrch, fodd bynnag mae amrywiaeth llawer ehangach o doiledau yn fanteisiol i bawb.

Fe wnaeth Adroddiad y Cabinet 2016 hefyd argymell fod y cyfleusterau pwrpasol unigol yn Stryd Newydd, Yr Wyddgrug a Threffynnon yn cael eu cau, ac y dylai'r manylion a'r camau gweithredu o fewn y strategaeth hon gefnogi darparu dewisiadau amgen rhesymol er mwyn gwella'r cyfleusterau cyffredinol sydd ar gynnig i'r cyhoedd yn yr ardal.

# MANTEISION Y STRATEGAETH HON

Mae toiledau i'r cyhoedd eu defnyddio'n bwysig i bawb sy'n teithio "oddi cartref" am ba bynnag reswm ac mae'n dal yn bwnc â phroffil uchel.  Fodd bynnag, maent yn bwysicach fyth i rai grwpiau yn y gymdeithas, megis pobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl ag anghenion penodol (sy'n cynnwys rhai problemau meddygol), merched, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gall diffyg darpariaeth effeithio'n anghymesur ar y carfannau hynny; er enghraifft, deallir bod darpariaeth wael yn cael effaith arbennig o negyddol ar bobl hŷn, gan y bydd rhai ohonynt yn llai tebygol o fynd o'u cartrefi os nad ydynt yn ffyddiog y bydd cyfleusterau digonol ar gael iddynt. Gall hynny gyfrannu at ymdeimlad cynyddol o arwahanrwydd cymdeithasol ac anweithgarwch, a gall effeithio hefyd ar allu pobl i gadw'n annibynnol a chynnal eu hurddas yn nes ymlaen mewn bywyd.

Mae'r strategaeth hon yn cyfrannu tuag at sicrhau bod toiledau hygyrch a glân ar gael lle bynnag mae pobl yn byw, gweithio neu ymweld.  Mae angen yn debygol o gynyddu drwy ddatblygiadau tai newydd a thrwy dwristiaeth.  Mae hwn yn gyfle amserol i osod strategaeth ar gyfer hyrwyddo mynediad at gyfleusterau toiled lle mae eu hangen.

Daeth Rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017:  Darparu Toiledau i rym ar 31 Mai 2018 ac mae'n rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal.  Mae'r strategaeth wedi ei hadeiladu o amgylch egwyddorion cydgynhyrchiad, drwy ymgysylltiad yr awdurdod lleol gydag amrywiaeth eang o ddarparwyr a defnyddwyr posib.

Bellach mae dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i:

- Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau ar gyfer eu cymunedau;
- Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Cynhyrchu strategaeth toiledau lleol; ac
- Adolygu'r strategaeth, diweddaru a rhoi cyhoeddusrwydd i adolygiadau.

Cafodd strategaeth toiledau lleol flaenorol ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ym mis Mai 2019. Nid yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau yn golygu fod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol. Rhaid i'r Awdurdod Lleol gymryd golwg strategol ar sut gellir darparu cyfleusterau a sut gall eu poblogaeth leol gael mynediad atynt. Wedi adolygu'r strategaeth hon, bydd angen i Gyngor Sir y Fflint gyhoeddi datganiad o gynnydd.

Nod y strategaeth hon yw adolygu ansawdd a nifer y toiledau lleol sydd ar gael drwy'r sir, a darparu neu hwyluso'r broses o ddarparu toiledau glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy i drigolion ac ymwelwyr â'r Sir mewn lleoliadau lle mae angen am y fath gyfleusterau wedi ei nodi.

Er mwyn cyflawni'r Strategaeth yma byddwn yn:

- Adolygu'r lefel bresennol o ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus
- Dadansoddi canfyddiadau'r asesiad o anghenion ar gyfer toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd yn eu hardal;
- Ystyried gofynion y boblogaeth yn gyffredinol;
- Nodi anghenion grwpiau penodol o ddefnyddwyr;
- Arolygu cyflwr y cyfleusterau presennol a faint o ddefnydd a wneir ohonynt;
- Nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol;
- Mabwysiadu defnydd o dechnolegau a dulliau cyfathrebu newydd y rhagwelir y byddant yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth o leoliadau'r toiledau lleol; a
- Darparu datganiad yn nodi'r camau y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu eu cymryd er mwyn diwallu'r angen hwn; ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r cyngor yn ei ystyried yn briodol.

# ADOLYGU'R STRATEGAETH

Fel y nodir yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 - Rhan 8: Darparu Toiledau Lleol, bydd Cyngor Sir y Fflint yn adolygu'r strategaeth toiledau lleol o fewn blwyddyn i bob etholiad cyffredin ar gyfer ei ardal. Cynhelir yr etholiad nesaf yng Nghymru yn 2027. Os na wneir unrhyw newidiadau i'r strategaeth yn dilyn yr adolygiad ôl- etholiad yna bydd y Sir yn cyhoeddi datganiad cynnydd interim dros gyfnod o ddwy flynedd gan gychwyn o ddyddiad yr etholiad diwethaf.

Gall Cyngor Sir Y Fflint adolygu ei strategaeth unrhyw bryd, ac wedi hynny rhaid iddo gyhoeddi datganiad o'r camau y mae wedi ei gymryd yn unol â'r strategaeth.  Os bydd y Cyngor yn penderfynu diwygio'r strategaeth yn dilyn adolygiad, bydd yn cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig ac yna'n llunio adroddiad cynnydd interim gan gynnwys y ddwy flynedd ers dyddiad cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol.

# MAPIO LLEOLIADAU

Bwriedir bod yr wybodaeth a gesglir fel rhan o baratoi'r strategaeth hon yn cael ei atgynhyrchu ac ar gael yn hawdd fel bod pobl sydd angen ymweld â thoiled yn gallu cael gwybodaeth am leoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael yn hawdd.

Bydd safleoedd sy'n rhan o'r cynllun hefyd yn arddangos sticer mewn lle amlwg i ddangos bod toiledau ar gael i'r cyhoedd.  Bydd y sticer yn arddangos y logo a bennir gan Lywodraeth Cymru.  Bwriedir hefyd y bydd Cyngor Sir y Fflint yn mabwysiadu'r arwydd yma er mwyn hyrwyddo cysondeb ar draws yr ardal i'r rheiny sydd am ddefnyddio'r cyfleusterau.

Mae Cymdeithas Toiledau Prydain hefyd yn argymell gosod arwyddion ar y tu allan gyda gwybodaeth fel oriau agor, manylion cyswllt i sôn am broblemau a'r union gyfleusterau sydd y tu mewn, fel ystafell newid babanod os oes un.

O dro i dro bydd y Cyngor yn adolygu storfa ddata "Lle" Llywodraeth Cymru a'i diweddaru fel bod cyhoeddwyr canllawiau a mapiau, trigolion ac ymwelwyr yn cael y wybodaeth gywir.

Unwaith y byddwn wedi clustnodi'r toiledau a fydd yn cael eu hysbysebu fel rhai fydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio, bydd Cyngor Sir y Fflint yn paratoi cyfres ddata i fanyleb benodol, ac yn sicrhau ei bod ar gael fel data agored ar wefan y cyngor.  Bydd y set data yn cynnwys lleoliad a phriodoleddau penodol y toiledau hynny a nodwyd.  Defnyddir yr un data ar gyfer system Llywodraeth Cymru a'i gyfuno â setiau data awdurdodau lleol eraill i greu set ddata genedlaethol ar gyfer y map Lle. Porth daear yw Lle sy'n gweithio

fel canolbwynt ar gyfer data a gwybodaeth ynghylch amrywiaeth helaeth o bynciau, ond sy'n ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd. Bydd Lle'n cynhyrchu mapiau o Gymru gyfan yn seiliedig ar y setiau data a ddarperir gan awdurdodau lleol a bydd modd eu ffurfweddu i ganolbwyntio ar y darlun cenedlaethol neu ar ardaloedd mwy lleol. Bydd y data a gynhwysir yn y map Lle ar gael i bawb fel data agored.

Mae'r ddolen i borth Lle isod:

https://lle.llyw.cymru/hafan

Mae'n rhaid i ddata agored fod ar gael o dan drwydded agored. O fewn y Sector Cyhoeddus gellir cyflawni hyn drwy gyhoeddi data o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Gan fod y data a ddarperir gan awdurdodau lleol yn mynd i fod ar gael fel data agored, bydd ar gael i'w ailddefnyddio gan drydydd partïon, un ai yn uniongyrchol o wefan yr awdurdod lleol ei hun neu drwy'r gyfres ddata tu nôl i fap Lle. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau eraill sy'n darparu mapiau ar-lein, datblygwyr apiau neu gwmnïau masnachol, yn ogystal â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Bydd y set ddata ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd modd i'r cyhoedd weld a chwilio am y data fel mae'n ymddangos ar wefan Lle, gan edrych ar Gymru gyfan neu edrych ar ardaloedd penodol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys dolen ar ei wefan i'r map Lle er mwyn helpu pobl i chwilio am ddata am ardaloedd eraill y gallent fod yn ymweld â hwy. Mae Cyngor Sir y Fflint yn hyrwyddo'r defnydd o wefan Dewis Cymru (www.dewis.cymru) fel adnodd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth leol a'r wybodaeth sy'n ymwneud â thoiledau lleol a fydd yn cael ei chyhoeddi ar y wefan hon.

# MANYLION CYFLEUSTERAU PRESENNOL Y SIR SYDD AR GAEL I'R CYHOEDD

| | | Pa gyfleusterau sydd ar gael? | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lleoliad** | **Cod Post** | | | | | **Ystafell newid babanod** | | | | | **Anabl** | | | | | | **Lle yn cynnwys cyfleusterau newid oedolion, offer codi ac ati i bobl sydd ag anableddau dwys a'u gofalwyr?** |
| | | | | | | | | | | | **Mynediad agored** | | | **Wedi ei gloi (RADAR)** | | | |
| | | **Cyfleuster Pwrpasol?** | **Dynion yn unig** | **Merched yn unig** | **Toiledau neillryw** | **Toiledau dynion** | **Toiledau merched** | **Toiledau neillryw** | **Toiledau ar wahân** | **Toiled i bobl anabl** | **Dynion yn unig** | **Merched yn unig** | **Neillryw** | **Dynion yn unig** | **Merched yn unig** | **Neillryw** | |
| Gorsaf Fysiau, Yr Wyddgrug | CH7 1LA | Y | Y | Y | N | N | Y | N | N | Y | Y | Y | N | Y | Y | N | N |
| Station Road, Talacre | CH8 9RP | Y | N | N | Y | N | N | Y | N | N | N | N | Y | N | N | N | N |
| oddi ar y Stryd Fawr, Treffynnon | CH8 7TR | Y | Y | Y | N | N | Y | N | N | N | Y | Y | N | Y | Y | N | N |

| | | Oriau Agor | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lleoliad Cymraeg** | **Cod Post** | **Dydd Llun** | | **Dydd Mawrth** | | **Dydd Mercher** | | **Dydd Iau** | | **Dydd Gwener** | | **Dydd Sadwrn** | | **Dydd Sul** | |
| | | **Agor** | **Cau** | **Agor** | **Cau** | **Agor** | **Cau** | **Agor** | **Cau** | **Agor** | **Cau** | **Agor** | **Cau** | **Agor** | **Cau** |
| Gorsaf Fysiau, Yr Wyddgrug | CH7 1LA | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 |
| Toiledau Talacre | CH8 9RP | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 |
| Toiledau Treffynnon | CH8 7TR | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 | 08:00 | 17:00 |

| | | A yw'r toiledau ar gau ar unrhyw un o'r dyddiau isod? | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lleoliad** | **Cod Post** | **A yw' r toiledau ar gau yn ystod y tymor tawel?** | **A oes llai o wasanaethau yn ystod y tymor** | **Dydd Nadolig** | **Gŵyl San Steffan** | **Dydd Calan** | **Gŵyl Banc mis Mai** | **Dydd Gwener y Groglith** | **Dydd Sul y Pasg** | **Dydd Llun y Pasg** | **Gŵyl Banc y Gwanwyn** | **Gŵyl Banc mis Awst** |
| **Cymraeg** | | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Oes / Oes** | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Ydyn / Ydyn** | **Nac Ydyn / Ydyn** |
| Gorsaf Fysiau, Yr Wyddgrug | CH7 1LA | Nac Ydyn | Nac Oes | Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn |
| Toiledau Talacre | CH8 9RP | Nac Ydyn | Nac Oes | Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn |
| Toiledau Treffynnon | CH8 7TR | Nac Ydyn | Nac Oes | Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn | Nac Ydyn |

# CYFLEUSTERAU YCHWANEGOL O FEWN Y SIR

Isod mae rhestr o’r cyfleusterau sydd ar gael drwy’r sir sydd at ddefnydd y cyhoedd:

- Canolfan Farchogaeth Clwyd, Llanfynnydd (Cyfleusterau Lleoedd Newid)
- Lôn y Porthmyn, Caerwys
- Canolfan Hamdden Y Fflint
- Llyfrgell Bwcle
- Llyfrgell Treffynnon
- Canolfan Daniel Owen, Yr Wyddgrug
- Queensferry, Canolfan Arddio Daleside
- Toiledau Cyhoeddus Canol Tref Bwcle
- Ffordd Fron, Cei Connah
- Canolfan Hamdden Yr Wyddgrug
- Llyfrgell Cei Connah
- Llyfrgell Yr Wyddgrug
- Parc Siopa Brychdyn
- Canolfan Hamdden Treffynnc (Cyfleusterau Lleoedd Newid
- Cilcain, Canolfan Gymunedol y Pentref
- Canolfan Hamdden Bwcle
- Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy
- Llyfrgell Y Fflint
- Garej Shell, A55
- Gorsaf Drenau Y Fflint

# ASESIAD O ANGHENION

Mewn ymdrech i gadw cofnod o’r cyfleusterau sydd ar gael a'r galw mewn modd gwrthrychol, mae’r asesiad o anghenion canlynol wedi cael ei ddatblygu.  Ni fwriedir i hwn gael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun, a bydd yr wybodaeth sydd dod i’r amlwg drwy'r arolwg ymgysylltu, a'r ymgynghoriad llawn yn dylanwadu ar yr angen holistaidd am doiledau lleol ar draws y Sir.

| **Sgôr Angen** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| 0= | Amherthnasol |
| 1= | Isel iawn |
| 2= | Isel |
| 3= | Canolig |
| 4= | Uchel |
| 5= | Uchel iawn |

| Nifer o Doiledau Preifat |
|---|
| 0 |
| 1 |
| 2 |
| 3 |
| 4 |
| 5+ |

| | **Adnabod yr Angen** | | | | | **Darpariaeth Toiled Presennol** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tref/Pentref** | **Angen Siopa** | **Angen Atyniad** | **Angen Rhyngwyneb Cludiant** | **Angen Amgylchiadau Arbennig** | **Sgôr Angen** | **Cyfleusterau a Weithredir gan yr ALI** | **Toiledau eraill y sector cyhoeddus e.e. Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd ac ati** | **Cyngor Cymuned** | **Preifat** | **A yw’r angen wedi ei ddiwallu?** |
| Yr Wyddgrug | 5 | 5 | 4 | 4 | **18** | 1 | 2 | 1 | 1 | **Ydi** |
| Treffynnon | 4 | 4 | 3 | 3 | **14** | 1 | 1 | | | **Ydi** |
| Y Fflint | 4 | 3 | 4 | 3 | **14** | | 2 | | 1 | **Ydi** |
| Cei Connah | 4 | 3 | 3 | 3 | **13** | | 1 | | 1 | **Ydi** |
| Brychdyn | 5 | 3 | 5 | 0 | **13** | | 1 | | 1 | **Ydi** |
| Bwcle | 3 | 3 | 3 | 3 | **12** | | 2 | 1 | | **Ydi** |
| Queensferry | 3 | 3 | 3 | 3 | **12** | | 1 | | 2 | **Ydi** |
| Shotton | 4 | 2 | 4 | 0 | **10** | | | | | **Nac ydi** |
| Saltney | 2 | 2 | 3 | 2 | **9** | | | | | **Ydi** |
| Penarlâg | 1 | 3 | 2 | 0 | **6** | | | | | **Ydi** |
| Talacre | 0 | 4 | 1 | 0 | **5** | 1 | | | | **Ydi** |
| Mostyn | 1 | 1 | 2 | 0 | **4** | | | | | **Ydi** |
| Sealand | 0 | 1 | 1 | 0 | **2** | | | | | **Ydi** |
| Mynydd Isa | 1 | 1 | 1 | 0 | **3** | | | | | **Ydi** |
| Ewlo | 0 | 2 | 1 | 0 | **3** | | | | | **Ydi** |
| Caergwrle | 0 | 0 | 2 | 0 | **2** | | | | | **Ydi** |
| Llaneurgain | 1 | 1 | 0 | 0 | **2** | | | | | **Ydi** |

**Parhad**

| | Adnabod yr Angen | | | | | Darpariaeth Toiled Presennol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tref/Pentref** | **Angen Siopa** | **Angen Atyniad** | **Angen Rhyngwyneb Cludiant** | **Angen Amgylchiadau Arbennig** | **Sgôr Angen** | **Cyfleusterau a Weithredir gan yr ALI** | **Toiledau eraill y sector cyhoeddus e.e. Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd ac ati** | **Cyngor Cymuned** | **Preifat** | **A yw'r angen wedi ei ddiwallu?** |
| Helygain | 0 | 1 | 0 | 0 | **1** | | | | | **Ydi** |
| Penyffordd | 0 | 0 | 2 | 0 | **2** | | | | | **Ydi** |
| Maes Glas | 0 | 2 | 0 | 0 | **2** | | | | | **Ydi** |
| Bagillt | 0 | 0 | 0 | 0 | **1** | | | 1 | | **Ydi** |
| Caerwys | 0 | 0 | 1 | 0 | **1** | | | 1 | | **Ydi** |
| Aston | 0 | 0 | 1 | 0 | **1** | | | | | **Ydi** |
| Yr Hôb | 0 | 1 | 0 | 0 | **1** | | | | | **Ydi** |
| Ffynnongroyw | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Gronant | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Trelawnyd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Chwitffordd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Northop Hall | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | 1 | | **Ydi** |
| Cilcain | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | 1 | **Ydi** |
| Brynfforddd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Gwernaffield | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Gwernymynydd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| New Brighton | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Mancot | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Higher Kinnerton | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Coed-llai | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Treuddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |
| Llanfynydd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | | **Ydi** |

Rhaid ategu nad yw'r ddyletswydd i baratoi Strategaeth Toiledau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau i ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol, ac nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu cyfleusterau pwrpasol ychwanegol.

# CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

Ym mis Mai 2023, cyhoeddwyd holiadur ar-lein er mwyn ceisio barn trigolion am gyfleusterau toiled presennol y Cyngor sydd am ddim i'w defnyddio yn Yr Wyddgrug, Treffynnon a Thalacre.

Roedd yr holiadur yn seiliedig ar bresenoldeb, ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau, digonolrwydd y ddarpariaeth a gwelliannau a awgrymir. Roedd yr holiadur yn fyw am 21 diwrnod ac fe gafwyd 687 o ymweliadau ac oddeutu 430 ymateb i bob cwestiwn.

Roedd 575 o'r ymweliadau gan drigolion lleol ac roedd 26 o'r ymatebion yn cynrychioli sefydliadau neu grwpiau defnyddwyr lleol.

**Presenoldeb:**

| Gofynnwyd y cwestiynau canlynol: | Crynodeb o'r Ymatebion: |
|---|---|
| ▪ Pa mor aml ydych chi'n ymweld â'r Wyddgrug, Treffynnon a Thalacre?<br>▪ Ydych chi'n defnyddio'r toiledau cyhoeddus?<br>▪ A ydynt mewn lleoliad cyfleus?<br>▪ A ydynt ar agor ar yr adegau rydych eu hangen? | Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymweld â'r Wyddgrug, Treffynnon a Thalacre'n rheolaidd, ond yn teimlo nad oedd y toiledau cyhoeddus wedi'u lleoli mewn mannau cyfleus ac yn Yr Wyddgrug, nid oeddent ar agor ar yr adegau yr oeddent eisiau eu defnyddio. |

**Ymwybyddiaeth o Gyfleusterau**

| Gofynnwyd y cwestiynau canlynol: | Crynodeb o'r Ymatebion: |
|---|---|
| ▪ Ydych chi'n ymwybodol o'r cyfleusterau mae Sir y Fflint yn eu cynnig?<br>▪ A oes digon o wybodaeth ynglŷn â ble i ddod o hyd i doiledau cyhoeddus sydd am ddim i'w defnyddio?<br>▪ A yw mynediad at gyfleusterau toiled ar draws y sir yn ddigonol? | ▪ Nid yw mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r cyfleusterau mae Sir y Fflint yn eu darparu ac nid ydynt yn gwybod sut i ddod o hyd i'r toiledau.<br>▪ Nid oes digon o gyfleusterau am ddim i'w defnyddio ar draws y sir. |

**Digonolrwydd y Ddarpariaeth**

| Gofynnwyd y cwestiynau canlynol: | Crynodeb o'r Ymatebion: |
|---|---|
| ▪ A yw'r toiledau yn diwallu eich anghenion yn ddigonol?<br>▪ A yw'r cyfleusterau'n hygyrch i bobl ag anableddau?<br>▪ A yw'r cyfleusterau newid ar gyfer babanod, plant ifanc ac unigolion ag anableddau yn ddigonol?<br>▪ Ydych chi'n cytuno bod y safonau glendid yn dda yn y toiledau sydd am ddim i'w defnyddio?<br>▪ Ydych chi'n teimlo'n ddiogel pan rydych yn defnyddio'r cyfleusterau? | ▪ Roedd yr ymatebwyr yn credu bod y cyfleusterau presennol a oedd yn cael eu darparu yn Sir y Fflint yn annigonol i unigolion ag anableddau, babanod a phlant ifanc<br>▪ Gellid gwella glendid<br>▪ Nid oedd rhai lleoliadau'n teimlo'n ddiogel i'w defnyddio |

**Gwelliannau a Awgrymir**

| Gofynnwyd y cwestiynau canlynol: | Crynodeb o'r Ymatebion: |
|---|---|
| ▪ I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda chyflwyno nodweddion ecogyfeillgar mewn toiledau cyhoeddus am ddim? | ▪ Roedd 88% o ymatebwyr o blaid cyflwyno nodweddion sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. |

# OPSIYNAU AR GYFER Y DYFODOL

## Polisïau gosod

Gallai'r Cyngor o bosib ystyried opsiynau i gyflwyno cymal mewn cytundebau gosod, pan fydd y Cyngor yn gosod ei eiddo ei hun i fusnes addas fel siop neu gaffi, eu bod i gynnwys mynediad i'r cyhoedd at gyfleusterau toiledau. Fodd bynnag, tra gellid ystyried hyn ar gyfer y nifer fach o unedau siopau a osodir, mae'n bosib y byddai tenantiaid yn mynegi pryderon am lanhau, cynnal a chadw ac argaeledd, a gallai'r gofyniad atal tenantiaid posib rhag cymryd prydles.

## Darparu anghenion y dyfodol gan y sector masnachol drwy strategaeth y Cyngor a sianeli cynllunio

Mae Ardoll Seilwaith Cymunedol yn galluogi Awdurdod Cynllunio Lleol Sir y Fflint i godi arian gan ddatblygwyr sy'n gwneud prosiectau adeiladu newydd yn eu hardal. Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer amrywiaeth eang o gostau seilwaith, fel addysg, gofal iechyd, heddlu a thân ac achub, sy'n angenrheidiol o ganlyniad i dai newydd er enghraifft. Gallai hyn fod yn un ffordd o sicrhau cyllid ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus yn y dyfodol o fewn neu ger datblygiadau newydd, ar sail a yrrir gan angen a galw ac yn dibynnu ar flaenoriaethau rhwng anghenion seilwaith newydd. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i gynnwys darpariaeth toiledau lleol mewn cynlluniau newydd a ddyfeisiwyd o dan yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.

## Cynigion Datblygu Mawr *(Amodau Cynllunio)*

Mae'n bosib y gellid gosod Amod Cynllunio ar rai datblygiadau masnachol mawr sy'n mynd i gynnwys caffis, bariau, siopau, adloniant ac ati, i ganiatáu'r cyhoedd i gael mynediad at gyfleusterau toiledau sy'n cael eu hadeiladu yn yr eiddo. Fodd bynnag, does dim cefnogaeth polisi ar lefel cenedlaethol ar gyfer gosod amodau cynllunio i ganiatáu'r cyhoedd i gael mynediad at gyfleusterau toiledau ar safle masnachol preifat. Felly byddai unrhyw amod o'r fath yn methu'r prawf bod yn rhaid gwneud y datblygiad i fod yn dderbyniol o safbwynt cynllunio.

## Gwneud yr Adolygiad Darpariaeth Toiledau Lleol yn rhan o Fentrau ehangach y Cyngor

Wrth adolygu cynlluniau a strategaethau ar draws y sefydliad, bydd Cyngor Sir Y Fflint yn ystyried yr angen a'r ddarpariaeth ar gyfer Toiledau Lleol. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i adolygu'r canlynol:

- Cynlluniau Lles Lleol
- Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth
- Cynlluniau Datblygu Lleol
- Llwybrau a Mapiau Teithio Llesol; a
- Phartneriaethau ar gyfer Twf.

# ATODIAD 1 – CYNLLUN GWEITHREDU

| Rhif | Amcan | Targed |
|---|---|---|
| 1 | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ddarparu gwasanaeth a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol i bob rhan o'r gymuned, heb ragfarnu. | Oes y Strategaeth |
| 2 | Archwilio opsiynau yn cynnwys gweithio gyda'r sector preifat, gwasanaethau gwirfoddol, cynghorau cymuned ac adeiladau eraill sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn sicrhau bod toiledau lleol ar gael yn y llefydd lle mae'r mwyaf o'u hangen a'u hannog i wneud y cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd. | Ebr-25 |
| 3 | Gwella ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth toiledau yn y sir drwy: sicrhau bod toiledau cyhoeddus wedi'u harwyddo'n gywir, bod y wybodaeth ar wefan Cyngor Sir y Fflint yn gywir a diweddaru'r storfa ddata mynediad agored ar y Lle yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, sicrhau bod gwefan Dewis Cymru a thrydydd partïon yn cymryd rhan yn y cynllun mapio a sicrhau ein bod yn arddangos y sticer logo toiled yn cael ei arddangos ar bob adeilad priodol. | Maw-24 |
| 4 | Adolygu contractau a darpariaeth gwasanaeth presennol er mwyn monitro gweithrediadau glanhau a safonau o dro i dro er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon o fewn adnoddau wedi'u dyrannu. | Rhag-24 |
| 5 | Adolygu'r cyfleusterau presennol i sicrhau bod y dewisiadau gorau yn cael eu gwneud o ran darparu toiledau hygyrch sy'n diwallu angen y gymuned ac archwilio'r dewisiadau ar gyfer cyflwyno cyfleusterau Lleoedd Newid drwy lunio rhaglen 4 blynedd i sicrhau bod Sir y Fflint yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol ar gyfer trigolion ac ymwelwyr y Sir. | Ebr-24 - Maw-27 |
| 6 | Mae Swyddogion Gwasanaethau Stryd a Chludiant, yn ogystal â swyddogion perthnasol eraill y Sir am barhau i weithio gyda'r Heddlu a thrigolion, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosib wrth leihau ymddygiad gwrth gymdeithasol a fandaliaeth. | Ebr-24 |
| 7 | Archwilio gwelliannau a dewisiadau amgen ar gyfer cyflwyno nodweddion sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd a sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddatblygiad ac ynni cynaliadwy. | Ebr-25 |